Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

Gwasanaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes
Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion

DOGFEN YMGYNGHORI

CYNNIG I AILDREFNU DARPARIAETH ADY O FEWN YR AWDURDOD LLEOL



Mae fersiynau print bras, fformat amgen neu fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais

Cynnwys

	Tudalen
1) Cefndir	2
2) Y cynnig a manylion yr ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni	4
3) Effaith y cynigion ar addysgu a dysgu, llesiant, gofal, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth.	9
4) Opsiynau sydd wedi cael eu hystyried	14
5) Effeithiau'r cynnig	17
6) Proses gyfreithiol ac ymgynghoriad	23
Rhestr o Ymgyngoreion	25

Cyflwyniad

Ynglŷn â beth mae'r adroddiad hwn?

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at rieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghastell-nedd Port Talbot.
Mae'n amlinellu manylion y bwriad i aildrefnu darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn yr awdurdod lleol drwy'r cynigion canlynol:

1. Sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn yr adeilad newydd yn Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg, Heol y Brif Ffordd, Castell-nedd, SA10 8DB, i ddod i rym o fis Medi 2028.
2. Sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn yr adeilad newydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, Marine Drive, Port Talbot, SA12 7NN, i ddod i rym o fis Medi 2027.

Cefndir ein cynnig

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae sicrhau bod y ddarpariaeth ysgolion gywir yn y lleoedd cywir, a'u bod yn addas ar gyfer dysgwyr yr 21ain ganrif, yn her sy'n wynebu'r Cyngor. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen adolygu nifer a math yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o adnoddau a chyfleusterau. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer y disgyblion hynny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae gweithredu'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY) yn golygu adolygu'r ddarpariaeth bresennol a phenderfynu ar nifer a math yr ysgolion sydd eu hangen i ddarparu addysg yn effeithiol ac yn effeithlon ledled Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at newidiadau sylweddol, gan gynnwys agor ysgolion newydd, cau ysgolion presennol, uno neu gyfuno ysgolion, ffedereiddio ysgolion a hyrwyddo mentrau newydd sy'n cefnogi cydweithio rhwng ysgolion. Bydd hefyd yn cynnwys ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at y cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd arbenigol sydd ar gael o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- yr angen am leoedd a hygyrchedd ysgolion
- safonau addysgol
- ansawdd ac addasrwydd adeiladau ysgolion
- rheolaeth ariannol effeithiol

Ers blwyddyn academaidd 2023/24, sicrhawyd lleoedd cynlluniedig ychwanegol yn unol â'r angen a nodwyd:

- 16 o leoedd cynlluniedig ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gynradd Blaenhonddan.
- 12 o leoedd cynlluniedig ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anghenion gwybyddiaeth a dysgu a 3 lle cynlluniedig ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn Ysgol Arbennig Hendrefelin
- 3 lle cynlluniedig ychwanegol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn Ysgol Gynradd Waunceirch.
- 40 o leoedd cynlluniedig ychwanegol yn Ysgol Maes y Coed ar gyfer dysgwyr ag Anawsterau Dysgu Difrifol i Ddwys a Lluosog (SLD/PMLD).
- Newidiwyd cyfrwng iaith y Ganolfan Cymorth Dysgu (CCD) yn YGG Trebannws i gyfrwng Cymraeg.
- Cymeradwywyd sefydlu CCD Gwybyddiaeth a Dysgu 16 lle ar gyfer disgyblion 11-16 oed yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur o fis Medi 2027.

Bydd sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cynnwys adolygu nifer a math yr ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal ac asesu a yw'r defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o adnoddau a chyfleusterau.

Mae gwaith diweddar i adolygu nifer a math y lleoedd cynlluniedig a'r ddarpariaeth asesu ledled Castell-nedd Port Talbot wedi dangos mai'r maes mwyaf o angen, ac felly'r galw mwyaf am ddarpariaeth arbenigol dros y tair blynedd nesaf ar lefel gynradd, yw anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio, ynghyd ag Anawsterau Dysgu Difrifol a Dwys Lluosog (SLD/PMLD). Ar lefel uwchradd, y maes mwyaf o angen, ac felly'r galw mwyaf am ddarpariaeth arbenigol dros y tair blynedd nesaf, yw anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio (ASD), ynghyd ag anghenion gwybyddiaeth a dysgu (MLD/SLD) ac anghenion Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol (BESD).

Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod angen cynyddol am ddarpariaethau arbenigol cyfrwng Cymraeg ar lefel gynradd ac uwchradd.
Bwriad y cynnig yw ategu'r ddarpariaeth arbenigol a'r cymorth sydd eisoes ar gael ledled Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Y cynnig a manylion yr ysgolion y mae'r cynnig hwn yn effeithio arni

Bwriedir ad-drefnu'r ddarpariaeth ADY o fewn yr awdurdod lleol er mwyn lleddfu'r pwysau presennol ar leoedd hirdymor drwy weithredu'r canlynol:

I. Cynigir sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio i ddisgyblion 11-16 oed yn adeilad newydd Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg, o fis Medi 2028.

Mae Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg wedi'i lleoli ar Heol y Brif Ffordd, Trecatwg, Castell-nedd, SA10 8DB. Mae'n ysgol uwchradd gyfun cyfrwng Saesneg gymysg ar gyfer disgyblion 11 i 16 oed. Mae ysgol newydd bwrpasol yn cael ei hadeiladu ar y safle presennol ar hyn o bryd, gyda Cham 1 i'w gwblhau yn ystod haf 2028.

Mae adeilad newydd Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg yn cael ei adeiladu ar y safle presennol ar hyn o bryd, gyda Cham 1 i'w gwblhau yn ystod haf 2028. Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys Canolfan Cymorth Dysgu sy'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Mewn ymateb i'r galw am leoedd darpariaeth arbenigol, cynigir sefydlu CCD ar gyfer Anawsterau Cyfathrebu a Rhyngweithio ar y safle hwn i ddarparu ar gyfer 16 o ddisgyblion 11-16 oed.

Mae gan yr ysgol bresennol gapasiti ar gyfer 1,169 o ddisgyblion amser llawn rhwng 11 ac 16 oed. Yn ôl cyfrifiad PLASC 2026, mae 779 o ddisgyblion amser llawn yn mynychu'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol Ganolfan Cymorth Dysgu. Bydd yr ysgol newydd yn darparu lle i 850 o ddisgyblion amser llawn ac, yn amodol ar gymeradwyaeth, 16 lle ADY ychwanegol mewn Canolfan Cymorth Dysgu bwrpasol.

Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion amser llawn yn yr ysgol yn gostwng dros y pum mlynedd nesaf, fel y dangosir yn Nhabl 1.

Tabl 1

	Nifer llawn amser Ion 2026	Rhag-amcanedig Ion 2027	Rhag-amcanedig Ion 2028	Rhag-amcanedig Ion 2029	Rhag-amcanedig Ion 2030	Rhag-amcanedig Ion 2031
LI/A	779	773	744	702	680	600

Dangosir nifer y disgyblion amser llawn hanesyddol yn Nhabl 2.

Tabl 2

Llawn amser	2021/2022	2022/ 2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	769	755	787	750	779

Cafodd Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2025. Ceir crynodeb o'r dyfarniadau isod:

Perfformiad Cyffredinol

Mae Ysgol Gymunedol Llangatwg yn ysgol gefnogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn gyffredinol yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal da. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol o leiaf yn eu dysgu, ac mae rhai yn gwneud cynnydd cryf. Ymhlith y cryfderau mae'r ddarpariaeth rhifedd, datblygu darllen, cynllunio'r cwricwlwm, cymorth bugeiliol, addysg gyrfaoedd a darpariaeth ADY.

Lles

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynnes a chefnogol gyda pherthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i geisio cymorth. Mae llais y disgybl wedi'i ddatblygu'n dda ac mae gan ddisgyblion gyfleoedd i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Mae'r systemau ymddygiad yn cael effaith gynyddol gadarnhaol, gan ddarparu sylfaen gref ar gyfer gwaith parhaus yr ysgol i wella presenoldeb a lleihau absenoldeb parhaus.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

Mae'r trefniadau gofal, cymorth ac arweiniad yn gynhwysfawr ac yn gryfder sylweddol i'r ysgol. Mae systemau bugeiliol effeithiol, trefniadau diogelu, darpariaeth ADY a chymorth gan asiantaethau allanol yn helpu i ddiwallu

anghenion unigol disgyblion. Mae'r trefniadau pontio o'r ysgol gynradd yn arbennig o effeithiol, ac mae addysg gyrfaoedd yn darparu cyfleoedd ac arweiniad gwerthfawr i ddysgwyr. Mae'r cymorth i ddisgyblion agored i niwed a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd o'r ysgol yn hynod effeithiol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi sefydlu gweledigaeth glir ac wedi ennill hyder cymuned yr ysgol yn gyflym. Mae arweinwyr wedi llwyddo i wella meysydd megis diogelu, morâl staff, darpariaeth darllen a rhifedd, trefniadau pontio a chymorth i ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw rolau a chyfrifoldebau arwain bob amser yn glir, sy'n arwain at wendidau mewn arweinyddiaeth strategol, yn enwedig o ran presenoldeb a chynllunio gwelliant. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn darparu sylfaen gref ar gyfer cryfhau ymhellach gywirdeb a ffocws strategol cynllunio gwelliant.

Crynodeb Cryno Cyffredinol

Mae Ysgol Gymunedol Llangatwg yn ysgol ofalgar, groesawgar a chynhwysol gyda chymorth bugeiliol cryf, trefniadau diogelu effeithiol, darpariaeth ADY ac addysg gyrfaoedd o safon uchel, a chwricwlwm eang sy'n diwallu anghenion dysgwyr yn dda. Mae'r arweinyddiaeth wedi llwyddo i wella sawl agwedd allweddol ar waith yr ysgol ac wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol. Mae'r ysgol mewn sefyllfa dda i adeiladu ar y cryfderau hyn drwy ddatblygu ymhellach addysgu ac asesu, gwella presenoldeb, cryfhau cynllunio gwelliant strategol, a sicrhau eglurder o ran atebolrwydd o fewn strwythurau arwain.

Gellir gweld adroddiad llawn Estyn yma: Adroddiad arolygu Ysgol Gymunedol Llangatwg 2025.

2. **Bwriedir sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 3-11 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, gyda'r ddarpariaeth yn dod i rym o fis Medi 2027.**

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan wedi'i lleoli ar Marine Drive, Sandfields, Port Talbot, SA12 7NN. Mae'n ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth gefnogi a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned Sandfields ac mae'n mynd drwy gyfnod sylweddol o ailddatblygu, gyda gwaith adeiladu ysgol newydd bwrpasol ar y gweill.

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr ysgol bresennol Ganolfan Cymorth Dysgu. Mae adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan wrthi'n cael ei adeiladu, gyda Cham 1 i'w gwblhau yn ystod haf 2027. Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys Canolfan Cymorth Dysgu sy'n cynnwys dwy ystafell ddosbarth. Mewn ymateb i'r galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol, bwriedir sefydlu CCD ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio ar y safle hwn i ddarparu ar gyfer 16 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion amser llawn (Derbyn i Flwyddyn 6) yn yr ysgol yn cynyddu dros y pum mlynedd nesaf, fel y dangosir yn Nhabl 3.

Tabl 3

	Nifer llawn amser Ion 2026	Rhag-amcanedig Ion 2027	Rhag-amcanedig Ion 2028	Rhag-amcanedig Ion 2029	Rhag-amcanedig Ion 2030	Rhag-amcanedig Ion 2031
F/T	330	351	345	346	350	375

Dangosir nifer hanesyddol y disgyblion amser llawn yn Nhabl 4.

Tabl 4

Llawn Amser	2021/2022	2022/ 2023	2023/2024	2024/2025	2025/2026
	319	321	317	328	330

Cafodd Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan ei harolygu ddiwethaf yn 2022. Ceir crynodeb o'r dyfarniadau isod:

Perfformiad Cyffredinol (Dysgu ac Addysgu)

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf a chyson yn eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu hyder yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn mwynhau dysgu ac yn cyflawni'n dda ar draws ystod eang o brofiadau ysgogol. Mae'r addysgu yn effeithiol ar y cyfan, gyda chydweithio cryf rhwng staff a chyfleoedd dysgu sydd wedi'u cynllunio'n ofalus. Fodd bynnag, nododd Estyn nad yw disgwyliadau bob amser yn ddigon uchel ym mhob dosbarth ac nad yw rhai gweithgareddau annibynnol yn herio disgyblion i gyflawni eu llawn botensial.

Lles

Mae lles yn gryfder sylweddol i'r ysgol. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi'u cynnwys mewn amgylchedd hynod gefnogol. Maent yn dangos ymddygiad rhagorol, parch tuag at eraill, gwydnwch ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae gan ddisgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol, maent yn deall hawliau plant yn dda ac yn gwneud cyfraniad gweithredol i'w hysgol a'r gymuned ehangach.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu gofal a chymorth eithriadol o gryf. Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i les emosiynol. Mae rhaglenni lles cynhwysfawr, darpariaeth ADY effeithiol, arferion cynhwysol a threfniadau diogelu cadarn yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth priodol i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r arweinyddiaeth yn hynod effeithiol ac yn darparu cyfeiriad strategol clir sy'n canolbwyntio ar les, cyflawniad a'r gymuned. Mae'r pennaeth a'r staff wedi sefydlu diwylliant gofalgar ac uchelgeisiol, gyda chefnogaeth y llywodraethwyr ac ymgysylltiad cryf â rhieni. Mae'r prosesau hunanwerthuso a gwella yn effeithiol, er bod yr adroddiad yn nodi y gallai'r dystiolaeth werthuso fod yn fwy

manwl ac yn fwy meintiol i gryfhau cynllunio gwelliant yn y dyfodol. Caiff adnoddau a chyllid eu rheoli'n effeithiol i gefnogi deilliannau a lles disgyblion.

Gwerthusiad Cyffredinol Cryno

Canfu Estyn fod Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan yn ysgol ofalgar, gynhwysol ac wedi'i harwain yn dda lle mae disgyblion yn hapus, yn ddiogel ac yn gwneud cynnydd da. Ymhlith y cryfderau penodol mae lles y disgyblion, ansawdd y gofal a'r cymorth, gwybodaeth y staff am anghenion disgyblion, ac arweinyddiaeth gref. Mae'r meysydd i'w gwella yn ymwneud â sicrhau disgwyliadau uchel yn gyson a darparu mwy o her i bob disgybl mewn gweithgareddau dysgu annibynnol.

Gellir darllen yr adroddiad llawn yma: Adroddiad arolygu Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan 2022.

Effaith y cynigion ar addysgu a dysgu, llesiant, gofal, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth

Addysgu a Dysgu

Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu drwy gynyddu'r ddarpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio a sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'n well y galw a nodwyd ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Byddai sefydlu Canolfannau Cymorth Dysgu (CCDau) yn Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg ac Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan yn rhoi mynediad i ddisgyblion at addysgu arbenigol, ymyriadau wedi'u targedu a staff â sgiliau priodol o fewn lleoliadau ysgolion prif ffrwd. Dylai hyn gefnogi gwell ymgysylltiad, cynnydd a mynediad at y cwricwlwm i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
Byddai'r cynigion hefyd yn lleihau'r pwysau ar ddarpariaethau arbenigol presennol, gan alluogi adnoddau ac arbenigedd i gael eu defnyddio'n fwy effeithiol ar draws yr awdurdod lleol. Pe na bai'r cynigion yn cael eu gweithredu, ni fyddai'r cyfleoedd i ddisgyblion gael mynediad at staff arbenigol a chymorth, ymyrraeth gynnar a darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg yn cael eu gwireddu'n llawn. Disgwylir hefyd y bydd yr ysgolion lletyol yn elwa o bresenoldeb staff arbenigol, gan gynyddu cyfleoedd dysgu proffesiynol a meithrin capasiti ar draws y gweithlu ehangach. O dan y trefniadau presennol,

byddai'r ddarpariaethau arbenigol presennol yn parhau i weithredu ar neu'n agos at eu capasiti llawn, gan gynyddu'r tebygolrwydd y caiff disgyblion eu lleoli mewn darpariaeth lai addas a lleihau gallu'r awdurdod i ddiwallu anghenion a nodwyd yn effeithiol.

Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad

Mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol gref ar les, gofal, cymorth ac arweiniad disgyblion. Byddai'r lleoedd arbenigol ychwanegol yn gwella mynediad at gymorth priodol i ddisgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio, gan helpu i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn darpariaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion mewn amgylchedd addysgol addas. Byddai hyn yn lleddfu'r pwysau ar leoedd arbenigol ac yn helpu i atal disgyblion rhag cael eu lleoli mewn darpariaeth lai addas neu ddarpariaeth y tu allan i'r sir.
Byddai'r CCD cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan yn gwella lles ymhellach drwy alluogi disgyblion i gael mynediad at gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gefnogi parhad yn eu profiad addysgol a chynnal cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r cynigion yn dangos arweinyddiaeth a chynllunio strategol mewn ymateb i'r galw a nodwyd am ddarpariaeth ADY arbenigol. Maent yn cyd-fynd â Rhaglen Gwella Ysgolion Strategol y Cyngor ac yn seiliedig ar adolygiad o angen, safonau addysgol, addasrwydd llety a defnydd effeithiol o adnoddau.
Mae'r cynigion hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o lety arbenigol pwrpasol sydd eisoes yn cael ei ddarparu fel rhan o ddatblygiadau'r ysgolion newydd.
Mae'r galw am ddarpariaeth ar gyfer anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn parhau'n uchel er gwaethaf cynnydd diweddar mewn lleoedd arbenigol, sy'n dangos bod y cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag angen strategol clir. Disgwylir hefyd i greu darpariaeth arbenigol ychwanegol gryfhau capasiti'r gweithlu drwy gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol a mynediad ehangach at arbenigedd arbenigol o fewn ysgolion prif ffrwd.
Ymhlith y risgiau arweinyddiaeth mae sicrhau staff â'r sgiliau priodol, rheoli pryderon rhanddeiliaid a sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn cael ei hintegreiddio'n llwyddiannus. Serch hynny, cefnogir y cynigion gan asesiadau effaith, prosesau rheoli risg a chynllunio strategol tymor canolig.

Gwerthusiad Cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r cynigion yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar draws pob un o'r tri maes arolygu Estyn. Byddent yn cynyddu mynediad at ddarpariaeth ADY arbenigol, yn gwella cyfleoedd i ddisgyblion dderbyn cymorth sy'n diwallu eu hanghenion, yn cryfhau'r ddarpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ac yn meithrin capasiti o fewn ysgolion prif ffrwd. Er bod risgiau gweithredu a rhoi staff ar waith, mae'r cynigion yn cynrychioli ymateb rhagweithiol a strategol i'r galw cynyddol ac maent yn debygol o wella deilliannau, cynhwysiant a chymorth i ddysgwyr ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio ledled Castell-nedd Port Talbot.

Disgwylir hefyd i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar ddarparu'r cwricwlwm llawn drwy gynyddu'r ddarpariaeth ADY arbenigol a sicrhau y gall dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio gael mynediad at gymorth priodol o fewn lleoliadau ysgolion prif ffrwd. Bydd hyn yn gwella mynediad at ddysgu, ymyriadau arbenigol a chymorth wedi'i deilwra, gan helpu disgyblion i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r cwricwlwm.

Bydd y cynigion hefyd yn cryfhau'r arbenigedd arbenigol o fewn yr ysgolion lletyol, gan gefnogi datblygiad staff a gwella arferion addysgu cynhwysol. Yn ogystal, bydd y Ganolfan Cymorth Dysgu cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan yn galluogi dysgwyr i gael mynediad at gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg tra'n parhau i gael mynediad at y cwricwlwm llawn. Ar y cyfan, disgwylir i'r cynigion wella mynediad at y cwricwlwm, cynhwysiant a deilliannau addysgol i ddysgwyr ag ADY.

Manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig

Byddai'r cynigion yn darparu manteision sylweddol o'u cymharu â chynnal y sefyllfa bresennol. Byddai sefydlu dwy Ganolfan Cymorth Dysgu (CCD) newydd 16 lle ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn cynyddu capasiti darpariaeth arbenigol ADY ledled y Fwrdeistref Sirol ac yn helpu i ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol.

Byddai'r cynigion yn galluogi mwy o ddysgwyr i gael mynediad at leoliadau addas yn nes at eu cartrefi, yn lleihau'r pwysau ar ddarpariaethau arbenigol presennol ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth annibynnol neu ddarpariaeth y tu allan i'r sir.

Byddent hefyd yn cryfhau'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg drwy sefydlu CCD cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, gan sicrhau mwy o degwch o ran mynediad at gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, byddai'r cynigion yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau pwrpasol sydd wedi'u cynnwys yn natblygiadau'r ysgolion newydd ac yn cefnogi addysg gynhwysol drwy alluogi dysgwyr i elwa ar gymorth arbenigol tra'n parhau'n rhan o gymunedau ysgolion prif ffrwd.
Ni nodwyd unrhyw anfanteision sylweddol mewn perthynas â'r cynigion hyn. Fodd bynnag, bydd angen sicrhau bod trefniadau pontio a gweithredu priodol ar waith er mwyn cefnogi sefydlu'r ddarpariaethau newydd yn llwyddiannus. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion perthnasol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn cael ei sefydlu'n effeithiol ac yn unol â'r amserlenni arfaethedig.

Gallai'r cynigion hefyd gyflwyno manteision strategol ehangach, gan gynnwys cynyddu lefel yr arbenigedd arbenigol o fewn ysgolion, creu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol, a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio.
Nid yw'r asesiadau effaith ar gydraddoldeb, y Gymraeg na'r gymuned wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Gallai'r capasiti arbenigol ychwanegol hefyd leihau'r risg o anghydfodau neu apelau i'r Tribiwnlys sy'n deillio o anawsterau wrth sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Fodd bynnag, mae'r cynigion hefyd yn cyflwyno rhai anfanteision o'u cymharu â chynnal y trefniadau presennol. Byddai'r ddarpariaethau newydd yn creu costau refeniw blynyddol ychwanegol, a amcangyfrifir yn oddeutu £332,272 ar gyfer y ddarpariaeth uwchradd a £321,120 ar gyfer y ddarpariaeth gynradd pan fyddant yn gweithredu'n llawn. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffynhonnell ariannu wedi'i nodi o fewn y cyllidebau presennol i dalu'r costau hyn. Gallai heriau godi hefyd wrth recriwtio staff arbenigol sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol.
Mewn cyferbyniad, byddai cynnal y trefniadau presennol yn osgoi'r pwysau ariannol a gweithredol ychwanegol hyn. Fodd bynnag, ni fyddai'n mynd i'r afael â'r prinder a nodwyd o leoedd arbenigol ADY, byddai'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg, ac ni fyddai'n manteisio i'r

eithaf ar y cyfleusterau arbenigol sy'n cael eu darparu drwy ddatblygiadau'r ysgolion newydd.

Yn gyffredinol, er bod y cynigion yn cynnwys costau ychwanegol a rhai risgiau gweithredu, maent yn cynnig ateb mwy cynaliadwy yn y tymor hir i ateb y galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol ADY ac ystyrir eu bod yn cynnig mwy o fanteision cyffredinol na chadw'r trefniadau presennol.

Bydd y Canolfannau Cymorth Dysgu (CCD) yn cael eu rheoli gan yr ysgolion ac yn gweithredu o dan drefniadau llywodraethu'r ysgolion. Fodd bynnag, byddant yn ddarpariaethau a gydnabyddir gan y Cyngor fel rhai sydd wedi'u neilltuo ar gyfer disgyblion ag ADY, a bydd y disgyblion a dderbynnir i'r CCD yn ychwanegol at nifer derbyn arferol yr ysgol.
Bydd derbyn i'r ddarpariaethau hyn drwy banel derbyn arbenigol y Cyngor, a bydd meini prawf penodol ar gyfer mynediad ac ymadael yn berthnasol.

Pa opsiynau sydd wedi'u hystyried?

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau a chyfleusterau er mwyn darparu'r cyfleoedd addysgol gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Ystyriwyd y dewisiadau canlynol ar gyfer pob un o'r newidiadau o fewn y cynnig hwn:

I. Cynnig i sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 11-16 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn adeilad newydd Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg o fis Medi 2028

Opsiwn 1 **- Y sefyllfa bresennol: cynnal y ddarpariaeth bresennol yng Nghastell-nedd Port Talbot**

Pe na bai'r Ganolfan Cymorth Dysgu (CCD) arfaethedig yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg, mae'n debygol y byddai'r ddarpariaeth arbenigol bresennol ledled yr awdurdod lleol yn parhau dan bwysau, gyda llai o gapasiti i ateb y galw a nodwyd am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD).

Gallai hyn olygu bod disgyblion yn cael eu lleoli mewn darpariaeth sy'n llai addas i ddiwallu eu hanghenion, mwy o ddibyniaeth ar ddarpariaeth amgen neu ddarpariaeth y tu allan i'r sir, a phwysau ychwanegol posibl ar gyllidebau trafnidiaeth ac addysg.

Byddai hefyd yn golygu colli cyfle i wneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau arbenigol sy'n cael eu darparu fel rhan o adeilad newydd yr ysgol.

Nid dyma'r opsiwn a ffefrir gan swyddogion.

Opsiwn 2 - Sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 11-16 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn adeilad newydd Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg o fis Medi 2028

Byddai sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn Ysgol Gymunedol Gyfun Llangatwg yn cynyddu argaeledd darpariaeth uwchradd arbenigol yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn helpu i ddiwallu'r galw a nodwyd ar gyfer disgyblion 11-16 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio/Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD).

Byddai'r cynnig yn cefnogi mwy o leoliadau priodol lleol i ddisgyblion, yn lleihau'r pwysau ar ddarpariaethau arbenigol presennol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau pwrpasol sy'n cael eu darparu fel rhan o adeilad newydd yr ysgol.

Byddai hefyd yn cyfrannu at amcanion ehangach Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion y Cyngor drwy sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol addas o fewn lleoliad ysgol uwchradd prif ffrwd.

Dyma'r opsiwn a ffefrir gan swyddogion.

II. Cynnig i sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 3-11 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan o fis Medi 2027

Opsiwn **1 - Y sefyllfa bresennol: cynnal y ddarpariaeth bresennol yng Nghastell-nedd Port Talbot**

Pe na bai'r Ganolfan Cymorth Dysgu (CCD) arfaethedig yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan, mae'n debygol y byddai'r ddarpariaeth arbenigol bresennol ledled yr awdurdod lleol yn parhau dan bwysau, gyda llai o gapasiti i ddiwallu'r galw a nodwyd ar gyfer disgyblion oedran cynradd ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio.

Byddai hyn hefyd yn cyfyngu ar argaeledd darpariaeth arbenigol cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed, a gallai arwain at ddisgyblion yn cael eu

lleoli mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg, darpariaeth amgen neu ddarpariaeth y tu allan i'r sir sy'n llai addas i ddiwallu eu hanghenion.

O ganlyniad, gallai disgyblion gael llai o gyfleoedd i gael mynediad at gymorth arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, a byddai'r Cyngor yn colli cyfle i wneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau arbenigol sy'n cael eu darparu fel rhan o adeilad newydd yr ysgol.

Nid dyma'r opsiwn a ffefrir gan swyddogion.

Opsiwn 2 **- Sefydlu Canolfan Cymorth Dysgu (CCD) 16 lle ar gyfer disgyblion 3-11 oed ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio yn adeilad newydd Ysgol Gynradd Gymraeg Rhosafan o fis Medi 2027**

